



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog

Crynodeb o ymatebion i Adroddiad  
y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a  
Llywodraeth Leol

Hydref 2016



## **Crynodeb o ymatebion i *Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog*, adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol**

### **1. Trosolwg o'r Ymatebion**

Derbyniwyd naw o ymatebion:

1. Comisiynydd yr Iaith Gymraeg (CyG)
2. Sheenagh Rees, Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot (CBSCNPT)
3. Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM)
4. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (CIG)
5. Robat Trefor, Prifysgol Bangor (RTPB)
6. Yr Athro Diarmait Mac Giolla Chríost & Dr Patrick Carlin, Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd (PC)
7. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (CDCG)
8. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (CCC)
9. Panel Ymgynghorol Aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin ar y Gymraeg (PYACSC)

Cyhoeddir yr ymatebion yn llawn ar wefan Llywodraeth Cymru.

### **2. Crynodeb o'r ymatebion i'r argymhellion**

#### **Cyffredinol**

Nid yw nifer yr ymatebion yn caniatáu dadansoddiad ystadegol ac nid yw pob ymateb yn cynnig sylwadau ar bob argymhelliad. Mae'r mwyafrif o ymatebwyr yn croesawi'r adroddiad:

*"Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn croesawu'r adroddiad hwn."* (CDCG)

*"Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn croesawu cyhoeddi'r adroddiad hwn."* (CSYM)

*"Bydd gweithredu ar yr adroddiad ... yn cynnig llwybr cadarn ac ymarferol yn ein blaenau."* (RTPB)

*"Gweithredu buan ar yr argymhellion hyn sydd ei angen."* (CIG)

*"Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn croesawu'r adroddiad ac yn credu ei fod yn cynnwys argymhellion gwerthfawr ac ymarferol."* (CCC)

*“Dymuna’r Cyngorydd Mair Stephens a Phanel Ymgynghorol Aelodau Cyngor Sir Gaerfyrddin ar y Gymraeg gefnogi argymhellion Adroddiad ‘Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog’ [...]Mae’r argymhellion yn cynnig y math o arweiniad gadarn sydd ei angen i wneud gwir wahaniaeth i sefyllfa’r iaith..” (PYACSC)*

Mae mwy o bryder gan eraill, yn benodol ynghylch argymhellion 2 a 3.

*“I am concerned about whether or not the recommendations [sef Argymhellion 2 a 3], as set out, can be in practice implemented by all local government employers in Wales.” (CBSCNPT)*

Mae’r ymatebwyr o Brifysgol Caerdydd yn herio rhai o’r haeriadau yn yr adroddiad ac yn nodi arwyddocâd y ffaith nad yw’r adroddiad yn unfrydol, gan gasglu

*“Prima facie, mae Argymhelliad 2(a) ac Argymhelliad 3 yn anghydawns â Deddf Cydraddoldeb 2010.” (PC)*

### **ARGYMHELLIAD 1(a): Dylai Llywodraeth Cymru newydd fynegi gweledigaeth uchelgeisiol a chyhoeddi strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg ar frys.**

Mae cydnabyddiaeth mewn sawl ymateb bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar strategaeth ddrafft *Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn croesawu’r argymhelliad i greu pwerdy iaith o fewn Llywodraeth Cymru a fyddai’n cynnig arweiniad strategol, arbenigedd yn y maes cynllunio ieithyddol strategol, paratoi deddfwriaeth, hybu a hyrwyddo’r iaith a darparu arweiniad ym maes ymchwil a datblygiadau digidol. Maent yn nodi bod

*“gwagle wedi bod yn y maes hwn dros y blynyddoedd diwethaf ers i Fwrdd yr Iaith ddod i ben.”*

Byddai’r Cyngor hefyd yn gweld budd o sefydlu arsyllfa iaith genedlaethol a fyddai’r cynnwys ystadegau a rhannu arfer da yn y maes iaith.

### **ARGYMHELLIAD 1(b): Dylai Llywodraeth Cymru, ar sail ei strategaeth hir dymor i’r Gymraeg, adolygu a chyflwyno gwelliannau i Fesur 2011 a chyflwyno Bil yr Iaith Gymraeg i’r Cynulliad yn ystod cyfnod y pumed Cynulliad Cenedlaethol (2016-2021).**

Mae ymatebwyr Prifysgol Caerdydd yn nodi na fedr y Cynulliad rwymo ei olynion at bolisiau neu strategaethau yn y dyfodol. Er hynny, eu casgliad yw y

*“ceir nifer o resymau da dros gyflwyno Bil o’r fath gan gynnwys, yn benodol, ddiwygio swyddogaeth Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac adlunio natur y drefn reoleiddiol gysylltiedig ynghylch y Gymraeg”*

gan gyfeirio at gyhoeddiad Mac Giolla Chrïost, *The Welsh Language Commissioner in Context: Roles, Methods and Relationships* (Caerdydd 2016).

Mae’r Comisiynydd yn nodi datganiad Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

*“ei bod yn amserol adolygu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac y byddai’n cychwyn ar y gwaith yn ystod y flwyddyn hon. Byddaf yn cyfrannu fel sy’n addas at drafodaethau ynghylch adolygu’r Mesur.”*

**ARGYMHELLIAD 1(c): Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi’r mesurau hyn gydag ymgyrch weledol i godi ymwybyddiaeth o le a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn ein bywyd cyhoeddus.**

Mae’r Comisiynydd yn nodi bod nifer o’r safonau yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn ein bywyd cyhoeddus, a bod strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru yn ymdrin ag amlygrwydd y Gymraeg.

**ARGYMHELLIAD 2(a): Dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu er mwyn sicrhau bod lefel o hyfedredd yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swyddi canlynol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru: y pennaeth gwasanaeth cyflogedig a’r prif weithredwr; y cyfarwyddwr corfforaethol gyda chyfrifoldeb am adnoddau dynol; y cyfarwyddwr addysg; y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.**

Argymhellion 2(a) a 3 sy’n ennyn y sylwadau mwyaf gan ymatebwyr.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn croesawu argymhellion 2 a 3:

*“Croesewir yr argymhelliad y dylid gwneud y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer pob swydd newydd ym meysydd addysg a llywodraeth leol.”*

Mae ymatebwyr Prifysgol Caerdydd yn gweld y mater o safbwynt gwahanol:

*“Ni chyflwynir tystiolaeth yn yr adroddiad i gyfiawnhau’r argymhelliad yma ar wahân i’r haerïad bod hyfedredd yn y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer pob deiliaid swyddi o’r fath ddangos eu hymrwymiad i werthoedd ac egwyddorion dwyieithrwydd (Cymraeg-Saesneg). Mae’r gofyniad ieithyddol fel y’i nodir yn yr adroddiad hwn yn ymdrin, felly, a’r symbolaidd yn hytrach na’r ymarferol; prawf ydyw o ymlyniad i werth penodol.”*

Maent yn dyfynnu tystiolaeth o Brunswick Newydd ble ceisiodd y Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol weithredu polisi tebyg ond iddo gael ei wrthod gan y Llywodraeth Ffederal. Noda'r ymatebwyr fod yr argymhelliad yn groes i gyngor/canllawiau Bwrdd yr Iaith a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (gynt), a Chomisiynydd y Gymraeg, ac y dylid, yn hytrach

*“seilio gofynion ieithyddol ar asesiad eglur a gwrthrychol o anghenion sgiliau ieithyddol y swydd.”*

Maent yn codi amheuan ynghylch deddfu yn y maes hwn:

*“Hefyd, pe bai'r Cynulliad yn penderfynu cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n gweithredu Argymhelliad 2(a) mae'n anodd gweld sut y gellid cysoni hyn â Deddf Cydraddoldeb 2010.”*

Mae ymatebwr Cyngor Castell-Nedd Port Talbot yn mynegi pryderon am ymarferoldeb argymhellion 2 a 3:

*“I am concerned about whether or not the recommendations [2 a 3], as set out, can be in practice implemented by all local government employers in Wales. For example, how available will the skills sets required be in the relevant job markets, particularly in relation to some of our most senior positions and technical / professional posts, which can already be hard to fill? The job market at Director and Chief Executive level is a UK wide market, and I am concerned that the impact, if these recommendations are enacted upon, could be, not the intended impact as set out in the Working Groups report, but rather candidates presenting who do not meet the essential criteria or worse, candidates not presenting at all. It will potentially restrict further an at times already small pool of suitably qualified and experienced individuals.”*

Mae Robat Trefor o Brifysgol Bangor yn argymhell gweithredu'r argymhelliad mewn camau, yn seiliedig ar ganran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal:

*“Dylid rhoi argymhellion 2, 3 a 4 ar waith yn syth ar gyfer siroedd Môn, Gwynedd, Ceredigion a Chaerfyrddin [...] Dylai prif elfennau argymhellion 2, 3 a 4 gael eu mabwysiadu fel nod mewn egwyddor yn y siroedd eraill sydd â chanran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg ac sy'n cynnwys cymunedau Cymraeg eu hiaith: Conwy, Sir Ddinbych, Powys, Sir Benfro a Chastell Nedd Port Talbot [...] a dylid llunio amserlen dair blynedd ar gyfer cyflawni hyn [...] Dylid hefyd ystyried cynnwys cynghorau lle ceir tystiolaeth o dwf diweddar yn yr iaith ar gyfer y patrwm hwn: Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Caerffili ac Abertawe.”*

Dylai'r rhelyw

*“orfod llunio amserlen dair blynedd ar gyfer gweithredu beth sydd yn bosibl o'r argymhellion yn eu hardaloedd hwy.”*

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi'r argymhelliad yn fras yn eu sylwadau cyffredinol heb gyfeirio'n benodol at yr argymhelliad hwn:

*“Nodir [yn yr adroddiad] nad yw deddfwriaeth a safonau'n ddigonol ac y dylai'r Llywodraeth ddeddfu er mwyn sicrhau bod gan rhai swyddi o fewn awdurdodau lleol rhyw lefel o hyfedredd yn y Gymraeg. Mae hyn i'w groesawu.”*

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn nodi fod rhaid i Awdurdodau Lleol eisoes gydymffurfio â safonau yn ymwneud â recriwtio ac apwyntio.

*“Mae safon 136 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau wrth asesu anghenion swyddi newydd neu swyddi gwag, asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a chategoreiddio yn dilyn hynny y sgiliau ieithyddol y mae angen i ddeiliad y swydd feddu arnynt. Yn ogystal, os bydd y sefydliad wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu rhaid pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd a hysbysebu'r swydd yn Gymraeg. Nid yw'r safon hwn yn pennu bod rhaid i swyddi penodol fod â gofynion ieithyddol fel sydd yn yr argymhelliad hwn. Er hynny, o dan y drefn safonau mae gan y Comisiynydd y gallu i ofyn i gael gweld asesiadau a gynhelir gan sefydliadau a maes o law bydd modd dysgu sut fath o asesiadau a gynhelir a'r graddau y mae sefydliadau'n ymateb i'r ddyletswydd yn gadarnhaol.”*

Daw'r Comisiynydd, yn rhannol, at gasgliad tebyg i un ymatebwyr Prifysgol Caerdydd:

*“Petai Llywodraeth Cymru yn deddfu yn y maes hwn dylid sicrhau fod y lefel o hyfedredd a bennir yn gyson â gofynion y swyddi sydd mewn golwg.”*

**ARGYMHELLIAD 2(b): Os nad yw'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol ganddynt yn barod, dylai'r ddeddfwriaeth roi dyletswyddau statudol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu hyfforddiant addas a neilltuo amser i'r unigolion dan sylw, er mwyn eu galluogi i gael y sgiliau iaith hanfodol.**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gefnogol ac yn rhannu o'u profiad:

*“Y pwynt allweddol ydi “a neilltuo amser i'r unigolion penodedig” . Dylid cydnabod bod amser i ryddhau swyddogion i fynychu hyfforddiant yn mynd yn anos. Byddai datblygu cyrsiau ar-lein yn fodd o liniaru ar hyn. Yma ym Môn, mae darparu gwersi un i un hefyd wedi bod yn llwyddiannus ar gyfer datblygu sgiliau iaith uwch swyddogion.”*

Mae'r Cyngor yn gwneud rhai pwyntiau eraill am hyfforddiant, yn ymwneud â bod yn realistig wrth fesur cynnydd, y gwahanol lefelau sy'n bodoli, y rhwystrau sy'n wynebu rhai grwpiau, yr angen am fwy o adnoddau digidol ac apêl tystysgrifau cydnabyddedig.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn nodi cwmpawd y ddeddfwriaeth bresennol:

*“Mae safonau 130 ac 131 yn gwneud gofynion penodol mewn perthynas â hyfforddiant ieithyddol. Yn benodol mae safon 130 yn nodi fod rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill i gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr, ac i gyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol. Mae hyn yn mynd dipyn o'r ffordd at weithredu'r argymhelliad hwn.”*

**ARGYMHELLIAD 2(c): Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddiadau i Academi Wales (ac unrhyw sefydliad cenedlaethol arall sy'n paratoi hyfforddiant arweinyddiaeth i'r sector gyhoeddus yng Nghymru) er mwyn sicrhau amlygrwydd i'r Gymraeg yn egwyddorion Un Gwasanaeth Cyhoeddus a bod Academi Wales yn paratoi hyfforddiant i arweinwyr y gwasanaethau cyhoeddus yn y sialensiau a'r cyfrifoldebau sy'n wynebu arweinwyr mewn gwlad dwy iaith.**

Dim ond Comisiynydd y Gymraeg sy'n gwneud sylw ar yr argymhelliad hwn:

*“Mae ‘Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu’ eisoes yn un o nodau llesiant Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Tybed a olygir yma y dylai'r Gymraeg gael rhagor o amlygrwydd o ran gwerthoedd y gwasanaethau cyhoeddus eu hunain.*

*“Cytunaf bod angen hyfforddi arweinwyr y gwasanaethau cyhoeddus ynghylch y sialensiau a'r cyfrifoldebau sy'n wynebu arweinwyr mewn gwlad dwy iaith. Mae safonau 132 ac 133 yn mynd beth o'r ffordd tuag at hyfforddi arweinwyr y gwasanaethau cyhoeddus ynghylch y sialensiau a'r cyfrifoldebau sy'n wynebu arweinwyr mewn gwlad dwy iaith. Yn achos safon 132 nodir fod rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'w cyflogeion ddatblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg; dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg a dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn achos safon 133 rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth cyflogeion newydd o'r Gymraeg.*

*“Bydd disgwyl i Academi Wales o 30 Medi 2016 ymlaen gydymffurfio â safon 84 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) sef ‘Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg’. Dehonglir cwrs addysg yn Atodlen 1, Rhan 3, cymal 44 y Rheoliadau fel ‘unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei ddarparu ar gyfer addysg neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd’.”*



### **ARGYMHELLIAD 3: Dylai sgiliau iaith Gymraeg fod yn hanfodol ar gyfer pob swydd newydd mewn pob Awdurdod Lleol yn Nghymru.**

Mae nifer o'r sylwadau a wnaed dan Argymhelliad 2(a) uchod yn berthnasol. Mae dau Gyngor yn adnabod y rhwystrau i wireddu polisi o'r math.

*"Rydym yn cytuno mewn egwyddor gyda'r argymhelliad hwn ond bydd angen bod yn glir beth yw disgwyliad sgiliau iaith lefel 1 wrth recriwtio fel nad ydym yn colli talent. Anhawster all godi yw y gall pobl deimlo nad ydi eu Cymraeg nhw "ddigon da". Mae angen i hyn ddod o ogwydd positif fel nad yw'n lleihau ein pwll recriwtio, yn enwedig mewn meysydd lle mae swyddi eisoes yn anodd ei llenwi."* (CSYM)

*"In relation to recruiting to the wider workforce, the Welsh speaking population of Neath Port Talbot County Borough Council is 15.3%. As the majority of our workforce live within the County Borough, a requirement that Welsh language skills are essential for all new posts will be extremely difficult for this Council to adhere to. Also on a practical note, I would like to flag up the funding and capacity requirements which implementing these recommendations will require, particularly in relation to the significant programme of language training and assessment that local government employers will have to put into place. If funding is not made available, meeting these requirements will place significant pressure on some Councils. The recommendations will require some practical input if they are to be implemented, and if they are to achieve what the Working Group hope they will achieve - I would suggest that working with local government employers and seeking to understand how employers can be appropriately and adequately supported is absolutely essential."* (CBSCNPT)

Dywed ymatebwyr Prifysgol Caerdydd:

*"Mae nod creu gweithlu dwyieithog yn gwbl ganmoladwy. Yn wir, mae gweithlu o'r fath yn angenrheidiol i roi ar waith mewn ffordd effeithiol y dyletswyddau a osodir ar gyrff cyhoeddus gan y gyfraith, gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Wedi dweud hynny, ymddengys bod yr adroddiad yn deall y term gweithlu dwyieithog fel pe bai'n golygu bod rhaid i bob aelod unigol o'r gweithlu hwnnw fod yn ddwyieithog rywsut, os nad yn y lle cyntaf yna ar sail gronnol."*

Cyferbynna'r awduron yr argymhelliad hwn gyda pholisïau mewn awdurdodaethau dwyieithog eraill sy'n lled debyg i Gymru. Yng Ngwlad y Basg, er enghraifft, rhaid i ofynion ieithyddol swyddi fod yn 'deg ac yn gymesur', sy'n golygu'n ymarferol eu bod yn sensitif i'r demograffi ieithyddol lleol. Noda'r awduron hefyd fod y prif gyfiawnhad am bolisïau iaith amrywiol Heddlu Gogledd Cymru, a chynghorau Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir

Caerfyrddin, i'w gael yn nemograffi'r Gymraeg a'i chryfder penodol yn yr awdurdodaethau hyn. Mae polisïau tebyg i'r hyn a gynigir yn Argymhelliad 3

*“wedi arwain yn ddigamsyniol at fethiant”*

mewn llefydd eraill ac o dan amgylchiadau tebyg i'r rhai yng Nghymru (heb fod yn benodol ymhle). Er hynny, a chan gymryd i ystyriaeth yr amheuan sydd ganddynt ynghylch gwahaniaethu, maent yn nodi yn eu casgliadau:

*“Gellid cymhwyso argymhellion sy'n debyg i Argymhelliad 2(a) ac Argymhelliad 3 mewn ffordd anwahaniaethol ar sail egwyddor tiriogaethedd ym maes cynllunio a pholisi iaith, hynny yw yn y rhannau hynny o Gymru lle bydd demograffi lleol y Gymraeg yn rhoi sail gref a fyddai'n eu cadarnhau.”*

Mae'r Comisiynydd y Gymraeg yn lleoli'r rhesymeg am weithlu dwyieithog yn yr hawliau sydd gan unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg a'r dyletswyddau ar gyrrff i ddarparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg mewn ymateb i'r hawliau hynny:

*“Mae cynllunio gweithlu sydd â'r sgiliau angenrheidiol yn y Gymraeg i ddiwallu gofynion darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn sicr yn rhan hanfodol o gynllunio gweithlu Awdurdodau Lleol a gweddill y sector cyhoeddus yn ogystal. Mae pennu isafswm o sgiliau yn y Gymraeg fel yr argymhellir yma yn un dull y byddai modd ei fabwysiadu i wneud hynny.”*

Mae'r Comisiynydd hefyd yn nodi yr angen i gynllunio ar gyfer cyflenwad sgiliau iaith, fel y gwnaeth y Cynghorau uchod:

*“Ymhellach, cyn deddfu yn y maes hwn byddai angen sicrhau bod y drefn addysgol sydd ohoni yng Nghymru yn gallu diwallu'r gofynion ieithyddol hyn. Mae Adroddiad 5 mlynedd Comisiynydd y Gymraeg yn tynnu sylw at ddiffygion yn hyn o beth gan nodi 'Addysg yw prif ffynhonnell siaradwyr Cymraeg heddiw .....Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, ymddengys na fu cynnydd arwyddocaol dros y blynyddoedd diwethaf yn y niferoedd sy'n derbyn addysg neu ofal drwy gyfrwng y Gymraeg.”*

Yn ogystal a thynnu sylw at rôl y safonau (136 asesu anghenion swyddi newydd neu swyddi gwag, 130/131 hyfforddiant), mae'r Comisiynydd yn cyfeirio at gasgliadau am arferion recriwtio sefydliadau ar hyn o bryd a gynhwyswyd yn *Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2014-15*.

*“Mae canfyddiadau'r adroddiad yn dangos fod arferion recriwtio cyffredinol y sefydliadau a oedd yn rhan o'r gwaith profi yn dangos sefyllfa a fyddai'n ei gwneud yn anodd iddynt gwrdd â'r argymhelliad hwn ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sefyllfa lle nad oes cysylltiad digonol rhwng gofynion ieithyddol swyddi a dyletswyddau a chymwyseddau ehangach y swyddi.”*

Mae'r Comisiynydd yn cadarnhau eto y cyswllt allweddol rhwng anghenion y swydd a'r gofynion ieithyddol:

*“Os bydd camau yn cael eu cymryd i wireddu'r argymhelliad hwn, credaf y byddai angen ei fireinio er mwyn sicrhau bod gofynion ieithyddol swyddi yn cyd-fynd â gofynion y swydd ei hun. Drwy wneud hynny, byddai modd rhoi eglurder i ymgeiswyr ynghylch y gofynion ieithyddol ac fe fyddai hefyd yn fodd o godi isafswm y gofyniad mewn sawl man.”*

**ARGYMHELLIAD 4: Dylai Awdurdodau Lleol, gan gynnwys yn eu swyddogaeth fel Awdurdodau Addysg Lleol, fod dan ddyletswydd statudol i gynllunio gweithlu o safbwynt sgiliau ieithyddol, a lle bo angen, i baratoi hyfforddiant addas i gwrdd â'r anghenion hynny.**

Noda Comisiynydd y Gymraeg bwysigrwydd cynllunio gweithlu a'r nifer o safonau sy'n ymwneud â hyn (127-131, 136, 170, 98 ac eraill).

*“Mae'n wir dweud bod angen mawr am gynllunio'r gweithlu o safbwynt sgiliau ieithyddol ar draws y sector cyhoeddus a sectorau eraill yng Nghymru er mwyn sicrhau bod modd cynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg i'r cyhoedd a chyflawni swyddogaethau a chynnal busnes cyhoeddus, a thrwy hynny gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.”*

**ARGYMHELLIAD 5(a): Dylai'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer Cymraeg yn y gweithle erbyn diwedd 2016, i'w gyflenwi gan y darparwyr o ddechrau mis Medi 2017.**

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn nodi:

*“Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol wedi cyhoeddi Cynllun Strategol 2016-2020 . Fel rhan o Amcan 2 y strategaeth (Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau i'r dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus), noda'r Ganolfan y bydd yn 'llunio Strategaeth Cymraeg yn y Gweithle er mwyn cefnogi cyflogwyr i lunio rhaglenni dysgu Cymraeg ystyrlon yn y gweithle. Dyma un o flaenoriaethau cyntaf y Ganolfan.' Bydd y Comisiynydd yn cyfrannu at waith y Ganolfan yn y dull mwyaf priodol.”*

**ARGYMHELLIAD 5(b): Dylai cyflenwyr masnachol hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle a fwriedir at ddefnydd y gwasanaethau cyhoeddus gael eu cytundebu o fewn fframwaith strategol a osodir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.**

Dim sylwadau.

**ARGYMHELLIAD 5(c): Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu un fframwaith hyfedredd iaith Gymraeg safonol i'w defnyddio gan y sector gyhoeddus gyfan yng Nghymru.**

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cefnogi'r argymhelliad yma:

*“Byddai'n ddefnyddiol i sefydliadau ac i unigolion fel ei gilydd felly petai un fframwaith hyfedredd yn cael ei fabwysiadu gan y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru i gwrdd â gofynion y gweithlu a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg.”*

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cysylltu'r argymhelliad hwn gydag argymhelliad 5(a):

*“Dylid anelu at ddatblygu hyfforddiant ar gyfer y gweithle sy'n cyd-fynd efo'r lefelau sgiliau iaith sy'n cael eu cytuno.”*

**ARGYMHELLIAD 6: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgolion Cymru i sicrhau bod cwrs MPA/MBA cyfrwng Cymraeg ar gael i arweinwyr y dyfodol mewn Llywodraeth Leol, ac ariannu 8 o lefydd bob blwyddyn am y pum mlynedd nesa.**

*“Nid wyf yn gwrthwynebu'r argymhelliad hwn mewn egwyddor. Er hynny, credaf bod lle i ystyried yn ehangach sut y mae'r drefn addysg a'r drefn addysg ôl-16 yn benodol yn cael ei chynllunio er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu gofynion y gweithlu dwyieithog yng Nghymru. Rhan o hyn yw sicrhau fod cyrsiau addas ar bob lefel academaidd ac mewn amryfal feysydd i gwrdd ag amrywiol anghenion y gwasanaethau cyhoeddus a sectorau eraill yng Nghymru.” (CyG)*

**ARGYMHELLIAD 7: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Technoleg Iaith a chronfa technoleg iaith i roi arweiniad yn y maes hwn.**

Mae cefnogaeth cyffredinol i rôl technolegau digidol

*“Croesawn yr argymhelliad hwn i greu bwrdd a chronfa technoleg iaith. Gall dylanwad a photensial technoleg i hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso defnydd fod yn gaffaeliad sylweddol i'r dyfodol. Gall technoleg gwybodaeth gyfrannu'n sylweddol i osgoi dyblygu (e.e. cof cyfieithu) mewn hinsawdd lle bo adnoddau'n prinhaus.” (CSYM)*

*“Rydym yn croesawu'n fawr y sylw i gyfieithu peiranyddol [...] Dylid sicrhau fod pob awdurdod yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg a rhannu adnoddau.”(CCC)*

Mae'r Comisiynydd y Gymraeg yn rhybuddio rhag dyblygu:

*“Eisoes mae gan Lywodraeth Cymru Grŵp Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg sydd wedi cyhoeddi ‘Cynllun gweithredu technoleg a’r cyfryngau digidol Cymraeg’. Yn ogystal, mae’r Llywodraeth wedi ariannu cronfa o ddatblygiadau digidol. Mater i’r Llywodraeth wrth gwrs fyddai sefydlu Bwrdd Technoleg Iaith a chronfa technoleg iaith newydd ond credaf na fyddai’n ddoeth dyblygu ymdrechion yn y maes hwn.”*

Noda hefyd yr ymrwymiad yn *Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050* i “fuddsoddi mewn cynlluniau i greu seilwaith technolegol (cyfieithu â chymorth cyfrifiadur, deallusrwydd artiffisial (AI), technoleg adnabod llais, ac ati) fel bod modd defnyddio’r Gymraeg ar declynnau electronig.”

**ARGYMHELLIAD 8(a): Dylai cynyddu’r defnydd o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn nod penodol yn strategaeth nesaf Llywodraeth Cymru i’r iaith Gymraeg.**

Mae’r Comisiynydd yn nodi mai dyna yw bwriad Mesur 2011:

*“Noda Comisiynydd y Gymraeg yng Nghynllun Strategol 2015-2017 mai’r amcan yw sicrhau bod yr holl newidiadau i dirlun bywyd cyhoeddus Cymru a fydd yn deillio o weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn arwain at gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg.”*

Noda hefyd mai dyna sydd wrth wraidd *Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*, sef “creu sefyllfa lle mae’n gwbl arferol i bobl ddefnyddio’r Gymraeg yn eu hymwneud â’r wladwriaeth a sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru.”

**ARGYMHELLIAD 8(b): Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil ansoddol i ddeall y ffactorau a’r amodau sy’n dylanwadu ar ddewisiadau unigolion a) wrth ddefnyddio’r Gymraeg yn y gwaith a b) wrth ddefnyddio gwasanaethau drwy’r Gymraeg.**

Mae’r Comisiynydd yn nodi pwysigrwydd tystiolaeth ac ymchwil ac

*“yn croesawu rhagor o waith ymchwil i ddeall y ffactorau a’r amodau sy’n dylanwadu ar ddewisiadau unigolion i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle neu wrth ddewis gwasanaethau Cymraeg.”*

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cytuno

*“fod sail ymchwil gadarn yn angenrheidiol yn y maes cymhleth hwn. Byddai gweld cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg yn fodd o gyfiawnhau buddsoddiad pellach mewn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.”*

**ARGYMHELLIAD 8(c): Ar sail yr ymchwil hyn, dylai Llywodraeth Cymru ariannu ymyraethau ymddygiadol effeithiol i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Llywodraeth Leol drwy'r Gymraeg, gan gynnwys gwasanaethau digidol, ac i hybu gweinyddiaeth ddwyieithog.**

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r argymhelliad hwn:

*“Mae ymchwilio i ymyraethau ymddygiad yn fater sy'n teilyngu ymchwil oherwydd ei fod yn hollbwysig y cyflwynir ymyraethau sy'n addas i'r amgylchiad; gallai ymyrryd yn y ffordd anghywir er enghraifft gael effaith negyddol ar sefyllfa.”*

Noda hefyd fod

*“safonau'r Gymraeg ynddynt eu hunain yn safonau ymddygiad sydd wedi'u cyflwyno drwy gyfraith er mwyn newid ymddygiad sefydliadau a'r modd y maent yn defnyddio'r Gymraeg.... ceir safonau neilltuol sy'n ymwneud yn unswydd â'r dasg o hybu defnydd a chodi ymwybyddiaeth.”*

**ARGYMHELLIAD 9: Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd statudol ar Lywodraeth Leol i hybu datblygiad economaidd lleol, a sicrhau ystyriaeth o dwf a ffyniant yr iaith Gymraeg fel rhan o'r dyletswydd hwnnw.**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gefnogol:

*“Mae'r Cyngor Sir yn cefnogi'r argymhelliad hwn ac mae cynnwys yr adroddiad sydd yn edrych ar yr economi yn cyd-fynd gyda'r fethodoleg sy'n cael ei fabwysiadu yma ar ynys i ddelio gyda her o bobl ifanc yn gadael i ddilyn cyrsiau addysgol ac oherwydd diffyg cyflogaeth. Deallwn fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eisoes yn ceisio lobio'r Llywodraeth i wneud y dyletswydd datblygu economaidd yn un statudol, ac wrth gynnal y drafodaeth hon, dylid cymryd i ystyriaeth ffyniant yr iaith Gymraeg yn ogystal. Byddai'n gwneud synnwyr i ymgorffori'r drafodaeth hon hefyd i unrhyw broses o adolygu rôl llywodraeth leol i'r dyfodol.”*

Mae Robat Trefor yn cysylltu datblygu economaidd a thai:

*“Nid oedd polisiâu tai ynddynt eu hunain yn rhan o gylch gorchwyl y gweithgor, ond ... mae'n hollbwysig fod cyd-asio rhwng datblygu'r economi a chodi tai a bod anghenion lleol yn cael eu hystyried ... yn hytrach na bod codi tai yn cael ei ystyried yn beiriant i yrru'r economi ar draul ystyriaethau cymdeithaseg iaith.”*

O dan gyfundrefn Mesur 2011, noda'r Comisiynydd bod:

*“gofyn i Awdurdodau Lleol baratoi strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut y byddant yn mynd ati i hybu'r Gymraeg a hwyluso ei defnyddio'n ehangach o fewn eu hardaloedd..... mae disgwyl i Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol gyhoeddi eu strategaethau 5 mlynedd [cyntaf] erbyn 30 Medi 2016.”*

**ARGYMHELLIAD 10: Dylai Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth gyflawn gyfartal â Llywodraeth Leol ddatblygu a gweithredu strategaeth economaidd-ieithyddol ar gyfer siroedd Môn, Gwynedd, Ceredigion, Caerfyrddin ac ardaloedd perthnasol cyfagos , yn seiliedig ar drefi Bangor, Aberystwyth, Caerfyrddin a Llanelli.**

Mae'r Comisiynydd yn nodi:

*“Mae'r argymhelliad hwn yn gyson â dadl y Grŵp Iaith ac Economi yn 2014 a argymhellodd ddynodi ardaloedd penodol fel 'parthau iaith economaidd arbennig'; a dadl y Grŵp Cymunedau Cymraeg yn 2013 a farnodd fod rhaid cyflwyno cynllun datblygu newydd ar gyfer ardaloedd Bangor, Caerfyrddin ac Aberystwyth. Rwyf hefyd o'r farn fod angen i unrhyw strategaeth economaidd-ieithyddol fod yn gwbl glir ei thargedau a'i hamcanion a bod dull addas o fesur ei chyrraeddiad ac o adrodd ar y cyrraeddiad hwnnw.”*

Mae Robat Trefor yn nodi

*“bwysigrwydd creiddiol trefi ac ardaloedd gweddol boblog ac uchel o ran canrannau siaradwyr y mae'n rhaid creu mwy o swyddi ynddynt os yw'r iaith i ffynnu a thyfu e.e. Llangefni, Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog, Tregaron, Dyffryn Aman, Cwm Gwendraeth. Un ystyriaeth yw cynnig rôl bwysicach i'r Mentrau Iaith.”*

Mae'r Comisiynydd hefyd yn nodi pwysigrwydd y prifysgolion, y Mentrau Iaith a phartneriaid eraill yn y gwaith hwn, ac yn ogystal,

*“Yn hyn o beth mae'n ddiddorol nodi cynnwys araith yr Ysgrifennydd Addysg Kirsty Williams ar 8 Medi 2016 mai nawr yw'r amser i brifysgolion Cymru ailgysylltu â'r cymunedau sydd o'u cwmpas.”*

Mae Cymdeithas y Iaith yn nodi

*“y cyfeiriad yn yr adran ar yr economi, at adroddiad blaenorol, 'Yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd' adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ran Y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Ionawr 2014. Nodwn yn arbennig y cyfeiriad sy'n nodi, "nid yw'n glir i'r Gweithgor i ba raddau y gweithredwyd ar yr argymhellion". Mae hyn yn dweud cyfrolau.”*

**ARGYMHELLIAD 11: Dylai Llywodraeth Cymru fonitro datblygiad Dinas-Ranbarth Bae Abertawe i sicrhau bod ffyniant y Gymraeg yn nwyrain Sir Gaerfyrddin (yn cynnwys Llanelli a chymoedd Gwendraeth ac Aman) yn flaenoriaeth bwrpasol.**

Noda'r Comisiynydd:

*“Ymrwymodd y Llywodraeth yn 2014 i ‘ofyn i’r byrddau sy’n goruchwyllo’r ddwy Ddinas-Ranbarth i nodi’r dulliau ymyrryd penodol a fyddai’n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a’r economi yn eu rhanbarthau’. Ar hyn o bryd mae’n anodd dweud i ba raddau y gwiredwyd y gofyniad hwn. Ymddengys nad yw’r Gymraeg yn ystyriaeth weledol yn natblygiad y Dinas-Ranbarth Bae Abertawe ar hyn o bryd. Nid oes un cyfeiriad at y Gymraeg yn Strategaeth Twf ar gyfer Dinas-Ranbarth Bae Abertawe (sydd ar gael yn Saesneg yn unig), Dinas-Ranbarth Bae Abertawe: Cynllun Dinasol 2016-2035, nac yng Nghylch Gorchwyl Bwrdd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Nid oes cyfeiriad at y Gymraeg ar wefan y Ddinas-Ranbarth er enghraifft, ac nid yw’r wefan honno ar gael yn y Gymraeg.”*

**ARGYMHELLIAD 12: Dylai Llywodraeth Cymru a’n Prifysgolion fuddsoddi mewn gwaith ymchwil sylfaenol i ddatblygu model sy’n disgrifio elfennau hanfodol strategaeth ieithyddol-economaidd effeithiol fel sail i ddatblygu polisi ymhellach**

Noda'r Comisiynydd (mewn ateb i’r argymhelliad blaenorol)

*“Mae’r Pwyllgor yn gywir i gwestiynu i ba raddau y mae strategaeth ieithyddol-economaidd wedi’i seilio ar ddull ‘law yn llaw’ o gynllunio’r berthynas rhwng iaith ac economi yn ddigonol yn hytrach na dull mwy integredig o gynllunio.”*

Noda y dylid dysgu gwersi o brofiad blaenorol:

*“Eisoes felly fe wnaed nifer o argymhellion ymarferol ar gyfer y Gymraeg a’r economi mewn dogfennau a strategaethau blaenorol, ond nid yw’n glir bob tro pa rai a wireddwyd nac ychwaith pa rai y mesurwyd eu heffeithiolrwydd. Ochr yn ochr felly â datblygu model dylid ystyried effeithlonrwydd yr argymhellion hynny a wnaed isoies a dysgu o brofiad y rhai a weithredwyd, gan sicrhau y byddant yn dod yn rhan greiddiol o unrhyw strategaeth newydd os oeddynt yn effeithiol.”*

Nid yw’n glir i’r Comisiynydd a weithredodd Lywodraeth Cymru ar argymhelliad y Grŵp Iaith ac Economi ar gynnal rhwydweithiau gyda’r rhai sy’n mudo allan o Gymru, ac argymhelliad yn ymwneud a chaffael a darparu gwasanaethau yn ddwyieithog. Er hynny, noda fod

*“Adran 5 Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) yn nodi bod cyfeiriadau at unrhyw weithgaredd neu wasanaeth sy’n cael ei gyflawni neu ei ddarparu gan gorff yn unol*



*â'r safonau yn gymwys petai'r weithgaredd neu'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan drydydd parti."*

**ARGYMHELLIAD 13: Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys adran ar dueddiadau'r dosbarthiad daearyddol o siaradwyr Cymraeg dros y 25 mlynedd nesa yn ei hadroddiad cyntaf ar dueddiadau tebygol y dyfodol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.**

Mae'r Comisiynydd yn nodi rhai o'r diffygion yn y data a ddaeth i'r amlwg wrth baratoi'r *Adroddiad 5 Mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg*, a diffygion data am ddefnydd o'r iaith yng nghyd-destun y nodau llesiant cenedlaethol.

*"Buaswn yn croesawu rhagor o wybodaeth ynghylch tueddiadau'r dosbarthiad daearyddol o siaradwyr Cymraeg dros y 25 mlynedd nesaf."*

**ARGYMHELLIAD 14: Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dalu sylw i bolisi ac arfer da economaidd-ieithyddol yn ei chynllun gwaith , gan gynnwys yng nghyd-destun y dinas-ranbarthau, ac adrodd arno yn ei Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf.**

Mae'r Comisiynydd yn nodi rhai anghysondebau yn argymhellion y Gweithgor ac

*"fel rhan o'r gwaith o fonitro polisi sy'n effeithio ar y Gymraeg yng Nghymru mae Comisiynydd y Gymraeg eisoes yn cadw golwg ar ddatblygiadau yn y maes economaidd-ieithyddol."*